# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 16 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid

### Rhaglen Adfywio Canol Trefi

**C9 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amcanion y rhaglen adfywio canol trefi? (OAQ19405)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, arolygu cronfa adfywio leol yr awdurdodau lleol ac eithrio arian cyfatebol. Dangosodd y trafodaethau cynnar ag awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd y gronfa bresennol fod angen, o bosibl, raglen adfywio canol trefi a'u cylchoedd. Yr wyf yn disgwyl am ganlyniad yr arolwg cyn gwneud penderfyniad ar ddyfodol y gronfa adfywio leol.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ19458) yn ôl.*

### Partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**C11 Janet Ryder:** Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u cyhoeddi ynghylch cyfansoddiad partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ19401)

**Edwina Hart:** Mae canllawiau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn amlinellu'r materion y dylid eu hystyried wrth sefydlu partneriaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mater i'w benderfynu'n lleol yw cyfansoddiad y bartneriaeth, ond buaswn yn disgwyl iddynt lynu at yr egwyddor bod traean o'r aelodaeth yn dod o'r sector statudol, traean o'r sector gwirfoddol neu fusnes, a thraean yn gynrychiolwyr o'r gymuned.

### Awdurdodau'r Heddlu

**C12 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch ariannu awdurdodau'r heddlu? (OAQ19411)

**Edwina Hart:** Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn arolygu fformiwla gyllido'r heddlu ar hyn o bryd. Yn fy ymateb i'r broses ymgynghori, pwysleisiais y dylai unrhyw fformiwla newydd gael cefnogaeth eang cymuned yr heddlu yng Nghymru. Bu imi gyflwyno sylwadau yn ddi-sigl ar faterion y mae pryder penodol yn eu cylch o ran plismona yng Nghymru, yn enwedig costau ychwanegol plismona ardaloedd gwledig ac ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd.

### Comisiwn Archwilio Cymru

**C13 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ymateb i'r adroddiadau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu disodli'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru? (OAQ19506)

**Edwina Hart:** Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2001 y byddai'n ceisio sefydlu un corff archwilio cyhoeddus i Gymru, pan godai cyfle deddfwriaethol o fewn amserlen senedd y DU.

### Partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**C14 Janet Davies:** Faint o bartneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf sydd wedi'u sefydlu hyd yn hyn? (OAQ19398)

**Edwina Hart:** Hyd yn hyn, sefydlwyd 44 partneriaeth i fwrw ymlaen â'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Cynllun Hawl i Brynu

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i barhau i weithredu'r cynllun hawl i brynu ym mhob rhan o Gymru? (OAQ19511)

**Edwina Hart:** Nid oes gan Lywodraeth y DU gynlluniau i ddod â'r hawl i brynu, sy'n parhau i weithredu yn Lloegr a Chymru, i ben.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Ailgylchu

**C7 Eleanor Burnham:** Beth sy'n cael ei wneud i hybu ac annog ailgylchu? (OAQ19504)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gosod cyfres o dargedau ailgylchu a chompostio sy'n cynyddu i awdurdodau lleol fel y caiff o leiaf 40 y cant o wastraff bwrdeistrefol ei drin yn y modd hwn erbyn 2009-10. O fewn y targed hwn, dylid ailgylchu lleiafswm o 15 y cant a chompostio 15 y cant.

Cyllideb polisi gwastraff y Cynulliad am y pedair blynedd 2001-02 i 2004-05 yw £80 miliwn. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau hyn, mae'r Cynulliad yn darparu cyllid ychwanegol ar eu cyfer, ac mae adnoddau'n cael eu rhoi i'r sector gwirfoddol amgylcheddol, i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac i brosiectau ymchwil.

### Cysylltiadau Trafnidiaeth

**C8 Richard Edwards:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth â gogledd Sir Benfro? (OAQ19421)

**Sue Essex:** Mater ar gyfer Cyngor Sir Benfro yn bennaf yw cynllunio a gweithredu gwelliannau trafnidiaeth yn lleol, ond ceir cefnogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, wrth gwrs, drwy gynlluniau megis y grant trafnidiaeth leol. Cyhoeddais yn y flaenraglen briffyrdd yn mis Mawrth y byddwn yn gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr, a fydd yn gwella cysylltiadau yn yr ardal yn gyffredinol.

Mae proses dendro masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r gororau wedi cyrraedd y cam o ddewis rhestr fer a disgwylir penderfyniad yn y gwanwyn. Mae Wales and Borders hefyd yn bwriadu cyflwyno gwelliannau mewn gwasanaethau i Abergwaun mis Mai nesaf, i wneud iawn am golli gwasanaeth Great Western.

### Prosiect ULTra

**C9 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi'r sefyllfa ddiweddaraf i ni ar brosiect ULTra? (OAQ19431)

**Sue Essex:** Yn ôl Cyngor Sir Caerdydd, mae profion gweithrediad a diogelwch prototeip ULTra yn parhau yn llwyddiannus.

Ar wahân i hyn, mae'r cyngor sir yn datblygu ei fanyleb system ar gyfer gweithredu system trafnidiaeth drefol awtomataidd i deithwyr yng Nghaerdydd at ddibenion y broses gaffael.

## Cludiant Cyhoeddus

**C10 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i wella cludiant cyhoeddus rhwng maes awyr Caerdydd a gorsaf drenau Caerdydd Canolog yn y tymor byr? (OAQ19495)

**Sue Essex:** Comisiynwyd Faber Maunsell Cyf, ymgynghorwyr peirianneg sifil a thrafnidiaeth, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i baratoi adroddiad ar wella amodau traffig Croes Cyrlwys ac i adolygu'r holl gynigion ar gyfer ffordd fynediad newydd neu wedi'i wella i faes awyr Caerdydd. Mae Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn ystyried yr adroddiad drafft ar hyn o bryd.

Yn ogystal, fe fydd ail-agor rheilffordd Bro Morgannwg i deithwyr (gyda chysylltiad bws o orsaf y Rhws i'r maes awyr) yn darparu gwell trafnidiaeth gyhoeddus. Disgwylir y bydd gwasanaeth bob awr yn cychwyn ym Mai 2004.

*Tynnwyd cwestiwn 11 (OAQ19493) yn ôl.*

## Amddiffynwyr Gwynt

**C12 Peter Black:** Beth yw statws presennol yr astudiaeth ymarferoldeb i'r amddiffynwyr gwynt ar bont yr M4 yn Llansawel? (OAQ19435) [R]

**Sue Essex:** Daw diwedd i gam cyntaf yr astudiaeth—ymchwiliad i effeithiau buddiol amrywiaeth o gynlluniau a ffurfiau atal gwynt—yn ystod yr wythnosau nesaf, pan gyflwynir adroddiad dros dro ymgynghorwyr Flint and Neil Partnership.

Fe fydd ail gam yr astudiaeth, a ddylai barhau oddeutu 10 wythnos, yn profi effeithiau'r opsiynau a nodwyd yn y cam cyntaf ar y strwythur ei hun ac yn nodi a oes angen unrhyw waith cryfhau.

Sylfaenir unrhyw benderfyniad i ddatblygu cynllun penodol ar awgrymiadau'r ymgynghorwyr yn yr adroddiad terfynol.

## Carthffosydd Preifat

**C13 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch mabwysiadu carthffosydd preifat gan y cwmni dŵr lleol? (OAQ19423)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwrw ymlaen â dau brif weithred, mewn cydweithrediad ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a phartïon eraill, i ystyried a thrafod carthffosydd nas mabwysiadwyd.

Yn gyntaf, cyhoeddwyd protocol carthffosydd sy'n cysoni'r safonau rheoliadau adeiladu â safonau mabwysiadu'r diwydiant dŵr yn Lloegr a Chymru. Mae'n ceisio sicrhau dull gweithredu ar y cyd ar gyfer cynllunio ac adeiladu carthffosydd ac, os y caiff ei ddilyn, dylai leihau y doreth o garthffosydd preifat a maint y systemau draenio newydd nas mabwysiadwyd.

Yn ail, mae prosiect ymchwil ar y gweill i ganfod maint a chyflwr y draeniau a charthffosydd preifat sy'n bodoli yn Lloegr a Chymru—yn enwedig o ran perchenogaeth a chynnal a chadw—ac i gael atebion cynaliadwy sy'n bosibl eu gweithredu i ymdrin â'r broblem. Disgwylir y caiff y ddogfen ymgynghori sy'n rhoi canfyddiadau'r ymchwil ei chyhoeddi yn ystod haf 2003.

**Gwasanaeth Rheilffordd**

**C14 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd ar y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y gwasanaeth rheilffordd rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd? (OAQ19499)

**Sue Essex:** Gwnaed cynnydd da. Mae cais am gyllid partneriaeth teithwyr rheilffyrdd ar gyfer ailagor rheilffordd Glynebwy wedi dod i law oddi wrth noddwyr y cynllun ac mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ei archwilio. Fel rhan o'r cais, darperir gwasanaethau trên rhwng Glynebwy a Chaerdydd erbyn 2005 a rhwng Glynebwy a Chasnewydd erbyn 2009, neu os yw'n ymarferol, cyn hynny.

**Difa Hwyaid Cochion**

**C15 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu safbwynt y Cynulliad ynghylch difa hwyaid cochion yng Nghymru? (OAQ19439)

**Sue Essex:** Mae sawl cytundeb rhyngwladol yn gorfodi'r DU i warchod hwyaid penwyn y mae eu goroesiad tymor hir dan fygythiad gan hwyaid cochion. Mae'r Cynulliad a gweinyddiaethau eraill yn ystyried adroddiad sy'n archwilio ymarferoldeb cael gwared ar hwyaid cochion o'r DU. Ceisiwyd barn sefydliadau gwarchodaeth ac fe gaiff gweithredoedd gwladwriaethau eraill yn Ewrop eu hystyried cyn y gwneir penderfyniad terfynol.